# 11.0 Ymgysylltu a Dylanwadu

Egwyddorion Cenedlaethol ar Gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru

## Trosolwg


1. Cyflwyniad
2. Egwyddorion
3. Diffiniadau


## Cyflwyniad

Mae'r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd yng Nghymru yn grŵp o ddeng egwyddor ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd a defnyddwyr gwasanaethau.



Llun: Cyfarfod cyhoeddus

Nod yr egwyddorion yw llywio'r ffordd yr ymgysylltir â phobl er mwyn sicrhau ei bod o ansawdd da, yn agored ac yn gyson. Maen nhw'n cynnig cyfres o ganllawiau i fudiadau o fewn y sector cyhoeddus a gwirfoddol yng Nghymru.

Maen nhw'n cyflwyno safonau arferion da wrth ymgysylltu â'r cyhoedd, i'w defnyddio gan swyddogion y llywodraeth, cynrychiolwyr etholedig, gweinyddwyr cyhoeddus, darparwyr gwasanaethau, llunwyr polisi, ymarferwyr cyfranogi ac ymgysylltu, ac unrhyw un sy'n ymdrechu i ymgysylltu'n effeithiol â'r cyhoedd.

Bydd dilyn yr egwyddorion hyn yn sicrhau y gall pobl a chymunedau fod yn rhan o benderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw. Gofynnir i fudiadau ymrwymo i'r egwyddorion, eu defnyddio yn eu gwaith, eu hyrwyddo'n eang

a rhannu arferion da er mwyn annog dysgu a gwella parhaus ym mhob cwr o Gymru.

Mae'r egwyddorion wedi'u llunio ar y cyd gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC), Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC), Swyddog Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Llywodraeth Cymru, Un Llais Cymru, ac ymarferwyr cyfranogi ac ymgysylltu.

## Egwyddorion

### 1. Cynlluniwch eich ymgysylltu er mwyn gwneud gwahaniaeth

Mae ymgysylltu'n cynnig cyfle go iawn i hysbysu neu ddylanwadu ar benderfyniadau, polisïau neu wasanaethau.

**Nodiadau canllaw:**

- Byddwch yn eglur o'r cychwyn cyntaf a yw ymgysylltu'n briodol neu beidio. A fydd ymgysylltu yn ychwanegu gwybodaeth a mewnwelediad i'ch prosesau penderfynu, ac a fyddwch chi'n gallu gweithredu ar y canlyniadau? Bydd bod yn eglur ynghylch yr hyn y gellir ac na ellir ei gyflawni yn osgoi ymgysylltu symbolig, a all ddifetha ymddiriedaeth ac ewyllys da, a chael effaith negyddol ar ymgysylltu yn y dyfodol.
- Os yw ymgysylltu'n briodol, byddwch yn eglur ynghylch y lefel o ymgysylltu a fyddai'n fwyaf ystyrlon i'ch sefyllfa – (gweler yr adran Diffiniadau am ragor o wybodaeth).
- Gallai ymgysylltu ddweud wrthych chi nad oes angen newid ar hyn o bryd. Gall hwn fod yn ganlyniad ymgysylltu dilys, sy'n gwneud gwahaniaeth cadarnhaol o ran cadw'ch egni a'ch adnoddau ar gyfer creu newid lle y mae ei angen fwyaf.
- Sicrhewch eich bod yn cyfathrebu diben eich ymgysylltiad (pam ddylai pobl roi o'u hamser a pha fudd allai fod iddyn nhw a'u cymunedau) a'r broses (beth all pobl ei ddisgwyl oddi wrtho, sut a phryd) yn eglur.
- Dylid monitro hygyrchedd, cynhwysiant ac amrywiaeth eich ymgysylltiad er mwyn sicrhau eich bod yn clywed lleisiau pobl â gwahanol nodweddion gwarchodedig a phrofiadau byw, gan gynnwys pobl heb gynrychiolaeth ddigonol.

## 2. Gwahoddwch bobl i gymryd rhan, os ydynt yn dymuno gwneud hynny

Dylai bobl gael cyfleoedd i ymgysylltu fel unigolion neu fel rhan o grŵp neu gymuned, mewn modd cynhwysol a chroesawgar nad yw'n eu gorfodi na'n eu rhoi dan bwysau.

**Nodiadau canllaw:**

- Mae cyfrifoldeb ar y rheini sy'n llunio polisïau neu'n cynllunio gwasanaethau i ymgysylltu â grwpiau amrywiol, a rhaid iddyn nhw gymryd camau i wneud hynny. Mae ymgysylltu yn golygu cynnig cyfle i bobl gymryd rhan – yr unigolyn sy'n dewis.
- Dylech nodi'r bobl a all gael eu heffeithio gan y broblem neu'r newid arfaethedig, a/neu'r rheini â diddordeb mewn cymryd rhan.
- Gellir cyrraedd gwahanol grwpiau o bobl drwy'r lliaws o gymunedau a grwpiau diddordebau arbennig sydd eisoes yn bodoli yn y sector gwirfoddol.
- Sicrhewch fod eich gwahoddiad i ymgysylltu yn briodol, yn hygyrch ac yn berthnasol.

## 3. Cynlluniwch a gwnewch eich ymgysylltu mewn modd amserol a phriodol

Dylid sicrhau bod y broses ymgysylltu'n glir, yn cael ei chyfathrebu i bawb mewn modd sy'n hawdd ei deall, yn cael ei chynnal o fewn amserlen resymol, ac yn defnyddio'r dull(iau) mwyaf priodol i'r rheini dan sylw.

**Nodiadau canllaw:**

- Peidiwch â gadael y gwaith o gynllunio eich ymgysylltu tan y funud olaf: dylech chi drefnu eich ymgysylltiad ar yr un pryd â chynllunio ar gyfer eich penderfyniad, polisi neu ddyluniad y gwasanaeth.
- Mae gwahanol lefelau o ymgysylltu, a dylech benderfynu ar yr un mwyaf priodol i chi pan fyddwch yn dechrau cynllunio (gweler yr adran Diffiniadau am ragor o wybodaeth).

- Dewiswch y dulliau gweithredu ar gyfer eich lefel(au) ymgysylltu (d)dewisol a defnyddiwch eich rhwydweithiau a phartneriaid i ehangu eich cyrhaeddiad yn yr amser sydd gennych chi.
- Mae nifer o ddulliau ar gael ar bob lefel ymgysylltu i ddiwallu anghenion gwahanol bobl a chyd-fynd â'u dewisiadau a'u gallu i gymryd rhan. Bydd angen i chi ddefnyddio dulliau amrywiol i gyrraedd pawb sydd angen i chi eu cyrraedd (gan gynnwys dulliau digidol a rhai nad ydynt yn ddigidol), ac i alluogi pobl i gymryd rhan yn y ffordd a'r maint sy'n gweithio iddyn nhw.
- Os oes camau gan eich proses ymgysylltu (e.e. arolwg, yna digwyddiadau galw heibio, yna grŵp ffocws), dylid rhoi'r cyfle i gyfranogwyr unrhyw gam gymryd rhan yn y cam(au) nesaf. Bydd hyn yn dyfnhau eu hymgysylltiad a'u dealltwriaeth o'r pwnc.

## 4. Gweithiwch gyda mudiadau partner perthnasol

Dylai mudiadau gyfathrebu â'i gilydd a chydweithio lle y bo'n bosibl, er mwyn sicrhau bod amser pobl, ac adnoddau mudiadau, yn cael eu defnyddio'n effeithlon.

**Nodiadau canllaw:**

- Wrth ddechrau cynllunio eich ymgysylltu, gwiriwch a oes gan eich mudiad neu fudiad partner yr wybodaeth sydd ei hangen arnoch chi eisoes, neu os yw eisoes yn cynllunio neu'n gwneud gweithgaredd ymgysylltu yn yr un ardal neu gyda'r un bobl. Er enghraifft, mae nifer o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wedi datblygu cronfeydd data ar y cyd o waith ymgynghori ac ymgysylltu fel y gallant weithio'n fwy effeithiol gyda'i gilydd a chyda'r cyhoedd.
- Gweithiwch gyda mudiadau eraill sydd hefyd yn ymdrin â'ch ardal ddaearyddol neu faes diddordeb, waeth a ydyn nhw yn y sector cyhoeddus neu wirfoddol. Bydd hyn yn galluogi pob un ohonoch chi i ddefnyddio'r amser a'r adnoddau sydd gennych chi'n fwy effeithiol, lleihau dyblygu, ac i greu proses ymgysylltu mwy effeithiol, sy'n creu llai o ludded ymgynghori ac yn gwella'r canlyniadau.

## 5. Darparwch wybodaeth briodol a dealladwy heb jargon

Sicrhewch fod gan bobl fynediad hawdd at wybodaeth berthnasol sydd wedi'i theilwra i ddiwallu eu hanghenion.

**Nodiadau canllaw:**

- Talwch sylw i'r fformat: cyflwynwch y brif wybodaeth mewn Saesneg a Chymraeg Clir, a sicrhewch ei bod ar gael ar fformatau ychwanegol amrywiol, e.e., hawdd ei darllen, print bras, sain, fideo, ystyriol o blant ac ati.
- Talwch sylw i'r iaith: sicrhewch fod yr wybodaeth ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Ystyriwch a fyddai cynnig yr wybodaeth yn Iaith Arwyddion Prydain (BSL) ac ieithoedd lleiafrifol ethnig yn ddefnyddiol i'ch cynulleidfaoedd.
- Talwch sylw i'r tôn: sicrhewch fod yr wybodaeth yn ystyriol o wahanol ddiwylliannau a chrefyddau.
- Talwch sylw i'r cynnwys: peidiwch â gorlwytho pobl â gwybodaeth amherthnasol, ond sicrhewch eich bod yn cyfathrebu'r pethau y mae angen i bobl eu gwybod er mwyn gallu gwneud cyfraniad effeithiol yn eglur.

## 6. Gwnewch hi'n hawdd i bobl gymryd rhan

Nodwch unrhyw rwystrau a rhoi sylw iddynt, fel bod pobl yn gallu ymgysylltu'n hawdd.

**Nodiadau canllaw:**

- Gall pob un ohonom ni brofi rhwystrau i gymryd rhan, yn dibynnu ar y broblem a'r sefyllfa. Dylech chi gydnabod amrywiaeth, nodi unrhyw rwystrau posibl i wahanol bobl a chymryd camau i'w goresgyn. Ceisiwch ddeall pwy rydych chi'n ceisio ymgysylltu ag ef a defnyddiwch y ffyrdd a'r sianeli mwyaf priodol i'w cael i gymryd rhan.
- Dylai cyfranogwyr (yn hytrach na'r gweithwyr proffesiynol / trefnwyr) gael y cyfle i nodi problemau sydd, yn eu tyb nhw, yn rhwystrau i'w cyfranogiad. Er enghraifft, gallwch ofyn ar adeg cofrestru a oes gan bobl unrhyw ofynion mynediad neu a oes angen unrhyw addasiadau rhesymol arnyn nhw i gymryd rhan.

- Ystyriwch ymgysylltu digidol yn ofalus: gall gweithio ar-lein wneud ymgysylltu yn hygyrch i lawer na fyddai, am resymau amrywiol, yn mynychu digwyddiad yn bersonol. Ond byddwch yn ymwybodol o'r gwendidau, gan gynnwys allgau digidol (drwy ddiffyg mynediad at ddyfeisiau a/neu ddata, sgiliau neu hyder, neu hygyrchedd). Dylid cynnwys ymgysylltu digidol ochr yn ochr ag ymgysylltu wyneb yn wyneb.
- Byddwch yn ymwybodol o'r rhwystrau corfforol ac agweddol y gall bobl anabl eu hwynebu. Meddyliwch am y mynediad i adeiladau, i drafnidiaeth ac i ddulliau cyfathrebu cynhwysol (er enghraifft dehongli drwy BSL) fel y gall bawb gymryd rhan lawn a chyfartal. Cynigiwch fformatau gwybodaeth eraill a sicrhewch fod fersiynau ar-lein yn hygyrch i ddefnyddwyr technoleg gynorthwyol.
- Ystyriwch unrhyw brofiadau a sefyllfaoedd unigryw, gan gynnwys niwroamrywiaeth, gwahanol ddiwylliannau ac ieithoedd, hunaniaethau LHDTC+, cyfrifoldebau gofalu neu bethau eraill.
- Bydd angen defnyddio dulliau penodol gyda rhai grwpiau o bobl ag anghenion neu ddewisiadau arbennig neu gynnig cyfleoedd penodol i'r bobl hyn er mwyn ymgysylltu â nhw, e.e. plant a phobl ifanc. (Mae yna safonau cyfranogi ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n gallu bod o gymorth i lywio'ch ymgysylltiad.) Cynlluniwch i drefnu gweithgareddau sydd wedi'u dylunio'n benodol ar gyfer eu gofynion.
- Gweithiwch gyda mudiadau partner arbenigol i gael cyngor ac arferion da ar gefnogi a galluogi grwpiau gwahanol o bobl.

## 7. Sicrhewch fod y profiad yn fuddiol i bobl

Dylai'r ymgysylltu gyfrannu at ddatblygu sgiliau, gwybodaeth a hyder yr holl gyfranogwyr.


**Nodiadau canllaw:**

- Mae ymgysylltu da yn mynd y tu hwnt i gael barn pobl ar fater penodol. Dylai gyfrannu at ddatblygu gallu pobl i gymryd rhan mewn prosesau cymunedol / gwasanaethau cyhoeddus / democrataidd / llywodraethol. Mae'r bobl



hynny sy'n gweld eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u hyder yn cynyddu drwy brofiad ymgysylltu cadarnhaol yn fwy tebygol o gymryd rhan eto yn y dyfodol.

- Mae capasiti a gallu rhanddeiliaid gwahanol i gymryd rhan yn amrywio. Bydd gweithio gyda chymorth mudiadau partner sydd â phrofiad o gefnogi grwpiau penodol yn gwella'ch ymgysylltiad.
- Rhaid i bobl deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a bod eu safbwyntiau yn cael eu parchu. Wrth ryngweithio'n bersonol, crëwch amgylchedd positif, cefnogol gyda ffiniau a chydbwysedd fel bob pawb yn cael eu clywed mewn modd parchus. Rhowch sylw i dôn y llais, yr iaith, a'r neges rydych chi'n ei chyfleu, yn bersonol ac mewn deunyddiau ysgrifenedig. Bydd defnyddio hwyluswyr proffesiynol, a/neu ddatblygu eich sgiliau hwyluso eich hun, yn cynyddu effeithiolrwydd eich ymgysylltiad.
- Ewch ati i gydnabod yr amser, safbwyntiau a phrofiad byw y mae pobl yn eu cyfrannu. Diolchwch i bobl am gymryd rhan. Os gallwch chi dalu eu treuliau, gwnewch yn siŵr nad ydynt ar eu colled am eu bod yn cyfrannu. Os gallwch chi ei gynnwys yn eich cynlluniau a'ch cyllideb, talwch bobl am eu hamser (gofynnwch am gyngor ar osgoi effaith negyddol ar y rheini sy'n derbyn budd-daliadau). Defnyddiwch gredydau amser, talebau neu fathau eraill o iawndal i gynnig cyfnewid teg am yr amser y mae pobl wedi'i gyfrannu.



## 8. Sicrhewch eich bod wedi neilltuo digon o adnoddau ac amser i'ch ymgysylltu fod yn effeithiol

Neilltuwch ddigon o amser i gynllunio'r penderfyniad, y polisi neu'r dyluniad gwasanaeth ac i gael ymgysylltiad ystyrlon ar y pethau hyn. Bydd hyfforddiant, arweiniad, cymorth ac adnoddau ariannol yn galluogi'r holl gyfranogwyr i ymgysylltu'n effeithiol, gan gynnwys cyfranogwyr o'r gymuned a staff.

**Nodiadau canllaw:**

- Mae'n cymryd amser, pobl, sgiliau ac adnoddau i gyrraedd cyfranogwyr, gwneud prosesau ymgysylltu'n hygyrch a gwybodus, a chynnig amrediad o ffyrdd i bobl fynegi

eu safbwyntiau neu brofiadau. Rhaid dylunio proses ymgysylltu (a chael yr adnoddau ar ei chyfer) ar y dechrau er mwyn cael diben eglur a dulliau priodol a fydd yn cyflwyno'r effeithiolrwydd mwyaf.

- Os bydd mudiadau yn cwtogi prosesau oherwydd cyfyngiadau amser neu arian, bydd yn arwain at ymgysylltiad gwael (a fydd yn gwastraffu cyllid neu arian cyhoeddus), a phrofiadau negyddol i gyfranogwyr (a fydd yn lleihau ymddiriedaeth, ewyllys da a chyfranogiad pobl yn y dyfodol). Os yw amser a/neu amser yn fyr, dyluniwch broses ymgysylltu llai, mwy canolbwyntiedig a thra ystyrlon er mwyn cael y gwerth mwyaf gyda'r adnoddau sydd ar gael.
- I gael proses ymgysylltu sydd wedi'i chefnogi a'i chyflawni'n effeithiol, a chyda'r adnoddau sydd eu hangen, rhaid cael rheolaeth ac arweinyddiaeth dda o fewn mudiadau.

## 9. Rhowch wybod i bobl pa effaith mae eu cyfraniad wedi'i chael

Dylid rhoi adborth amserol i gyfranogwyr ar eu cyfraniad, ac ar y penderfyniadau neu weithrediadau a gymerwyd o ganlyniad i hyn, gan ddefnyddio dulliau a ffurflenni adborth sy'n ystyried dewisiadau cyfranogwyr.

**Nodiadau canllaw:**

- Y gyfrinach i ysgogi pobl i ymgysylltu eto yw sicrhau eu bod yn gweld budd a chanlyniad eu cyfraniad. Mae cau'r ddolen gyfathrebu a rhoi adborth mewn modd amserol yn hanfodol.
- Cofiwch fod gwasanaethau cyhoeddus yn symud yn arafach na bywydau pobl, a gall canlyniadau gymryd misoedd, os nad blynyddoedd, i ddod i'r golwg. Bydd cyfathrebiadau interim sy'n rhoi diweddariadau ar y broses yn helpu cyfranogwyr i deimlo nad ydynt wedi cael eu hanghofio ac yn cynyddu eu dealltwriaeth o'r systemau y maen nhw'n eu llywio neu'n dylanwadu arnynt.
- Ni fydd camau yn cael eu cymryd ar sail pob cyfraniad, ond bydd egluro penderfyniadau a gymerir mewn ymateb i safbwyntiau'r cyfranogwyr yn helpu i ennyn ffydd eu bod wedi cael eu clywed a'u hystyried. Pan na fydd camau yn cael eu cymryd ar sail pethau a awgrymwyd yn y broses

ymgysylltu, mae'n arfer da i egluro'r rhesymau dros hyn.

- Bydd gan wahanol gyfranogwyr wahanol anghenion a dewisiadau ar gyfer derbyn adborth, a dylid ystyried y rhain – mae hyn yn gysylltiedig â'u hanghenion gwybodaeth a hygyrchedd (egwyddorion 5 a 6).
- Dylai'r adborth fod yn gymesur â maint y mewnbwn a ddarparwyd gan y cyfranogwyr. Er enghraifft, gallech gyflwyno cymysgedd o wybodaeth gyffredinol ynghylch y broses ymgysylltu a'i chanlyniadau drwy gylchlythyr cyffredinol. Gellid ategu hyn drwy roi adborth mwy penodol a manwl i nifer llai o gyfranogwyr gweithgar, fel crynodeb i bobl a gymerodd ran mewn grŵp ffocws neu weithdy.

## 10. Ewch ati i ddysgu a rhannu er mwyn gwella eich ymgysylltu

Dylid monitro profiad pobl o'r broses ymgysylltu, ynghyd ag hygyrchedd, cynhwysiant ac amrywiaeth, a'r allbynnau a chanlyniadau. Dylai'r gwersi a ddysgwyd o'r gwerthusiad gael eu rhannu a dylent lywio unrhyw ymgysylltu yn y dyfodol.

**Nodiadau canllaw:**

- Mae'n hanfodol fod unrhyw broses ymgysylltu yn cael ei monitro'n barhaus, yn ogystal â'i gwerthuso ar ôl ei chwblhau. Mae hyn yn eich galluogi chi i addasu ac ymateb i'r annisgwyl pan fydd y broses ar waith.
- Yn ogystal â chynnwys y dasg o fonitro a gwerthuso profiad pobl, y cyrhaeddiad a'r amrywiaeth, a'r canlyniadau a ddaw yn sgil eich ymgysylltiad, mae'n bwysig eich bod yn myfyrio ar eich profiad eich hun o'r broses. Cofnodwch a rhannwch yr hyn rydych chi'n ei ddysgu a defnyddiwch hwn i wella eich arferion.
- Gallwch chi gyflwyno eich gwerthusiad i gyfranogwyr ar fformat hygyrch a phriodol, fel rhan o'r adborth gan y mudiad i gyfranogwyr pan fydd yr ymgysylltiad wedi dod i ben. Gall hefyd fod yn sail i gam ymgysylltu pellach, i adolygu a dylunio'r broses ei hun a'i gwella ar gyfer y dyfodol.
- Trwy ymdrechu i wella'n barhaus, a thrwy gydnabod, gwerthfawrogi a hyrwyddo arferion da, rydych chi'n cyfrannu at greu diwylliant positif o ymgysylltu cyhoeddus ar draws eich mudiad.

## Diffiniadau

Mae'r diffiniadau canlynol yn bwynt cyfeirio cyfoes rydyn ni'n gobeithio y bydd yn ddefnyddiol. Maen nhw'n ymdrin ag amrediad o wahanol ddulliau neu ffyrdd o fynd ati a gynhwysir o dan y term ymbarél ehangach - ymgysylltu. Bydd gwahanol fudiadau yn defnyddio un neu ragor o'r dulliau a ffyrdd gweithredu hyn, ac mae'n bwysig bod pob cyfranogwr yn deall ac yn eglur ynghylch pa un sy'n cael ei ddefnyddio.

### Ymgysylltu

Proses weithredol a chyfranogol y gall pobl ei dilyn i lunio a dylanwadu ar bolisïau a gwasanaethau sy'n cynnwys amrediad eang o wahanol ddulliau a thechnegau (gan gynnwys ymgynghori, cyfranogi, a chyd-gynhyrchu a chynnwys).

### Ymgynghori

Proses ffurfiol y mae llunwyr polisïau a darparwyr gwasanaethau yn ei dilyn i ofyn am safbwyntiau grwpiau ac unigolion â diddordeb ar bolisïau, gweithrediadau neu ymyriadau penodol.

### Cyfranogiad

Pobl sy'n cael eu cynnwys yn weithredol gan lunwyr polisi a chynllunwyr gwasanaethau o'r camau cynnar o gynllunio ac adolygu polisïau a gwasanaethau, er mwyn llywio a dylanwadu ar y canlyniadau a'r penderfyniadau.

### Cyd-gynhyrchu

Pan fydd pobl sy'n darparu a chyflwyno gwasanaethau, a phobl sy'n cael gafael ar wasanaethau ac yn eu derbyn, yn rhannu pŵer a chyfrifoldeb, ac yn gweithio gyda'i gilydd er eu lles ei gilydd mewn cydberthnasau cyfartal, cilyddol a gofalgar. Mae'n galluogi pobl i gael gafael ar gymorth perthnasol ac ystyrlon pan fyddant ei angen, gwasanaethau i fod yn effeithiol a gwneud gwahaniaeth cadarnhaol ym mywydau pobl ac i bobl, gwasanaethau a chymunedau ddod yn gyfryngwyr newid mwy effeithiol.

### Cynnwys

Mae hwn yn gofyn i fudiadau fod yn agored i gael eu dylanwadu gan ddinasyddion a rhanddeiliaid, gan symud i ddiwylliant o 'weithio gyda' yn hytrach na 'gwneud i'. Yn wahanol i ymgynghori, mae dulliau o gynnwys yn gweithio gyda phobl ar gamau cynharach, fel eu helpu i nodi problemau a datrysiadau posibl, a chael eu cefnogi i barhau i fod yn rhan o brosesau dylunio, gweithredu a gwerthuso o'r dechrau i'r diwedd.

Cafodd yr Egwyddorion hyn eu hadolygu a'u hailgyhoeddi yn 2022 gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC), gyda chymorth Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC), Swyddog Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Llywodraeth Cymru, Un Llais Cymru ac ymarferwyr cyfranogi ac ymgysylltu.

Cefnogi Trydydd Sector Cymru
Third Sector Support Wales

Rhwydwaith o fudiadau cymorth i'r trydydd sector cyfan yng Nghymru yw Cefnogi Trydydd Sector Cymru.

Ceir ynddo'r 19 corff cymorth lleol a rhanbarthol ledled Cymru, y Cynghorau Gwirfoddol Sirol, a'r corff cymorth cenedlaethol, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC).

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â
**https://thirdsectorsupport.wales/cy/cysylltu/**

## Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw un sy'n gweithredu neu'n gwrthod gweithredu arno.